***Polisi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd***
***Sex and Relationships Education Policy***

***Ysgol Botwnnog***

***Dyddiad Cymeradwyo/Date of Approval:***

***Dyddiad Adolygu/Review Date:***

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:**

**Dyddiad:**

**1. Cyflwyniad i'r Polisi**

Mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn broses dysgu gydol oes. Mae'n ymwneud a derbyn gwybodaeth, datblygu sgiliau a chreu cred, gwerthoedd ac agweddau positif. Mae gan Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ran allweddol mewn datblygiad personol, cymdeithasol, moesol ac ysbrydol plant a phobl ifanc.

Rydym yn cydnabod ein bod yn byw mewn cymdeithas amrywiol ac y bydd disgyblion yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd teulu. Bydd ein rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn anelu i fod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau wrth alluogi disgyblion i ddeall pwysigrwydd amgylchedd sefydlog, diogel a chariadus ar gyfer bywyd teuluol.

Bwriad ein hysgol yw cynllunio a darparu rhaglen gynhwysfawr o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n addas i holl ddisgyblion yr ysgol. Ein bwriad yw rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu sgiliau a chynyddu gwybodaeth addas i'w hoed a'i haeddfedrwydd. Addysgir a chefnogir ein disgyblion i gynnal eu hiechyd a'u lles emosiynol, corfforol, cymdeithasol ac i ddiogelu eu hunain.
Mae Corff Llywodraethol yr ysgol wedi cytuno bod ein rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn cael ei gyflwyno yng Nghyfnod Allweddol 3, 4.. Cynlluniwyd y rhaglen addysgu yn unol â'r hyn a nodwyd yn:

- Canllawiau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Mewn Ysgolion, 019/2010 (Llywodraeth Cymru, 2010).
- Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (Llywodraeth Cymru 2008).
- Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru - Gwyddoniaeth (Llywodraeth Cymru,, 2008).
- Parchu Eraill, Canllawiau Atal Bwlio 050/2011, Llywodraeth Cymru.
- Diogelu Plant mewn Addysg, Cylchlythyr Rhif: 005/2008, Llywodraeth Cynulliad Cymru,
- Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 (Mawrth 2007)
- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (Ebrill 2008).
- Deddf Cydraddoldeb 2010.

**2. Y broses monitro Addysg Rhyw a Pherthnasoedd:**

- Bydd y safonau dysgu ac addysgu yn cael eu monitro yn flynyddol.
- Mae'r UDRh yn gyfrifol am arwain y gwaith o fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth.
- Bydd yr ysgol yn ymgynghori â'r disgyblion wrth ddatblygu ac adolygu'r polisi a'r rhaglen addysgu.
- Mae'r polisi hwn gyda chyswllt a pholisi TGCh yr ysgol o ran materion diogelwch y Wê.
- Rôl y Corff Llywodraethu yw monitro ac adolygu'r polisi pob 2 flynedd.
- Byddwn yn trafod cynnwys rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a'r adnoddau a ddefnyddir i ddarparu'r rhaglen gyda rhieni/gofalwyr yn ôl y galw.
- Byddwn yn cynnig cefnogaeth i rieni/gofalwyr siarad â'u plant am ryw a pherthnasoedd os dymunir.

**3. Y Broses Ymgynghori:**

Rydym yn ymgynghori gyda'r Bwrdd Llywodraethol, athrawon sy'n cyflwyno'r pwnc , disgyblion, rhieni, Nyrs Ysgol a Cydlynydd Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd.

**4. Cyflwyno'r rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ysgol gyfan**

Nod yr ysgol yw darparu rhaglen **Addysg Rhyw a Pherthnasoedd** cynhwysfawr a chydlynol gan aelodau o staff cymwysedig. Bydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn cael ei gyflwyno drwy wersi ABCh, Gwyddoniaeth, Addysg Grefyddol, Hanes, Drama, TGCh a gwersi Iaith ynghyd a gweithgareddau trawsgwricwlaidd ac all-gwricwlaidd. Defnyddir asiantaethau allanol i gyfrannu agweddau o'r rhaglen.

**4.1 Deilliannau Dysgu Cyfnod Allweddol 3 Iechyd a Lles (Fframwaith ABCh 2008)**

*Dylai roi cyfle i'r dysgwyr:*

- dangos agwedd gyfrifol at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach.
- datblygu agwedd cadarnhaol atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill.

*Deall:*

- y gyfraith sy'n ymwneud ag agweddau ar ymddygiad rhywiol
- am atal cenhedlu, heintiau rhywiol a drosglwyddir yn rhywiol a HIV o fewn cyd-destun perthnasoedd
- nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth
- rôl priodas, pwysigrwydd perthnasoedd teulu sefydlog a chyfrifoldebau rhieni
- yr ystod o emosiynau y maent yn eu profi a sut i ddatblygu strategaethau ar gyfer ymdopi a theimladau negyddol
- y manteision o gael mynediad i wahanol ffynonellau o wybodaeth, cymorth a chyngor

**Datblygiad Moesol ac ysbrydol**

*Deall:*

- Y gwerthoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd
- eu credoau yng nghyd- destun y rheiny sy'n bodoli yn y gymdeithas

**4.2 Deilliannau Dysgu Cyfnod Allweddol 4 Iechyd a Lles**

*Dylai roi cyfle i'r dysgwyr:*

- derbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach.
- datblygu agwedd gyfrifol at gydberthnasau personol.

*Deall:*

- y canlyniad byrdymor a'r canlyniad mwy hirdymor wrth wneud penderfyniadau am eu hiechyd personol.
- yr ystod o agweddau, cydberthnasau ac ymddygiad rhywiol a geir mewn cymdeithas.
- pwysigrwydd iechyd rhywiol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol, gan gynnwys achosion posibl o ecsbloetio rhywiol
- y nodweddion sy'n perthyn i fod yn rhiant effeithiol, ac effaith colled a newid ar gydberthnasau
- y mudiadau statudol a gwirfoddol sy'n hybu iechyd a lles emosiynol.
- sut i gael mynediad i gymorth personol a chyngor proffesiynol ynghylch iechyd yn hyderus

**Datblygiad Moesol ac ysbrydol**

*Deall:*

- sut y mae credoau a gwerthoedd yn effeithio ar ffordd o fyw a hunaniaeth bersonol.
- y ffactorau sy'n ymwneud a llunio barn foesol.
- yr ystod o werthoedd ac egwyddorion sy'n llywio bywyd pobl.
- y gwerthoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd
- eu credoau yng nghyd-destun y rheiny sy'n bodoli yn y gymdeithas

**5. Rheolaeth a threfniant Addysg Rhyw a Pherthnasoedd**

**5.1 Ymateb i faterion sensitif:**

Bydd yr ysgol yn sicrhau na fydd cred bersonol ac ymagweddiadau athrawon yn dylanwadu ar y modd y cyflwynir Addysg Rhyw a Pherthynas. Sefydlir rheolau/cytundeb dosbarth er mwyn gosod ffiniau, sicrhau defnydd iaith addas a pharchu gwahaniaethau. Bydd yr athrawon yn ceisio ymdrin â chwestiynau o natur sensitif yn ystyrlon, onest a diwahaniaeth.

**5.2 Hawliau rhieni i eithrio eu plant:**

Mae gan rieni/gofalwyr hawl i eithrio eu plant o'r elfennau hynny nad yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Os yw rieni/gofalwyr yn dymuno eithrio eu plentyn o'r cyfan neu ran o'r Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a ddarperir gan yr ysgol bydd rhaid hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig.

Mae'r ysgol yn ystyried Addysg Rhyw a Pherthynas fel cyfrifoldeb i'w rannu, a rhoddir gwybodaeth i'r rhieni/gofalwyr am y Polisi, y rhaglen waith a'r adnoddau a ddefnyddir. Anogir disgyblion i drafod cynnwys y gwersi gyda'i rhieni/gofalwyr os derbynir cais i wneud hynnu. Os oes gan riant/gofalwyr bryder ynglŷn ag Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mae croeso iddynt drefnu i drafod gyda'r Pennaeth ac/neu'r arweinydd pwnc

**5.3 Diogelu ac Amddiffyn Plant**

Mae'r ysgol wedi sicrhau bod pob aelod o staff sy'n cyflwyno elfennau o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn ymwybodol o weithdrefnau Diogelu ac Amddiffyn Plant. Bydd holl aelodau'r staff sy'n sylwi ar neu'n pryderu am les disgybl/disgyblion yn ymwybodol:

- Pryd a sut i gyfeirio'r mater i wasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol
- Pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol a sut i gael mynediad atyn nhw
- Pa ffynonellau sydd ar gael am gyngor pellach ac arbenigedd
- Pwy i gysylltu â nhw ym mha amgylchiadau, a sut i ddilyn gweithdrefnau.

Bydd cyfle i staff yr ysgol drafod pryderon ynghylch lles plentyn gyda chydweithwyr, rheolwyr, gweithiwr proffesiynol penodol, neu asiantaethau arall er mwyn derbyn cyngor.

**5.4 Cyfrinachedd**

Os bydd aelod o staff neu ymwelwyr allanol sy'n cyfrannu ar y rhaglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn clywed neu'n gweld rhywbeth yn ystod y gwersi sy'n awgrymu bod disgybl mewn perygl o gael ei niweidio'n ddifrifol neu o beri niwed difrifol i eraill, byddant yn rhannu'r wybodaeth gyda'r aelod staff dynodedig sy'n gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn plant.

Bydd pob aelod o staff yn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol na all athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill gynnig nac addo cyfrinachedd diamod, yn enwedig mewn perthynas â datgeliadau personol.

Bydd yr ysgol yn

- Annog dysgwyr i siarad â'u rhieni/gofalwyr, os oes modd, a'u cefnogi i wneud hynny.
- Hysbysebu ffynonellau cymorth cyfrinachol, y Nyrs Ysgol, Cwnselydd yr ysgol, Meddyg Teulu Gwasanaeth Iechyd Rhywiol.
- Defnyddio rheolau/cytundeb dosbarth er mwyn gosod ffiniau.
- Sicrhau bod athrawon/darparwyr yn trafod cyfrinachedd gyda'r disgyblion ar ddechrau'r wers/cyflwyniad er mwyn gosod ffiniau.
-

**5.5 Rôl Arweinydd Pwnc mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd:**

- Cydlynu a ffurfioli polisi Addysg Rhyw & Pherthnasedd yr ysgol drwy gynnwys cyfraniad pawb all roi mewnbwn iddo.
- Rhoi gwybod i'r holl staff ac oedolion fydd yn cyflwyno Addysg Rhyw & Pherthnasedd yn yr ysgol am gynnwys y polisi a'u goblygiadau hwy fel darparwyr.
- Monitro a gwerthuso'r rhaglen addysgu a gofalu bod yr holl ofynion statudol yn cael eu cyflawni.
- Cysylltu gyda chynrychiolwyr Cyfnodau Allweddol priodol er mwyn sicrhau bod y
- ddarpariaeth yn ddigonol a bod dilyniant cynyddol priodol.
- Monitro a gwerthuso'r rhaglen waith yn flynyddol a pharatoi datganiad ysgrifenedig i'r Corff Llywodraethol ar derfyn pob blwyddyn academaidd.
- Adolygu'r polisi pob dwy flynedd.
- Asesu ac adnabod anghenion hyfforddiant staff sydd yn cyflwyno ac yn cyfrannu at y rhaglen addysgu a gweithredu ar rhain.
- Sicrhau bod pob aelod o staff sy'n cyflwyno agweddau o Addysg Rhyw & Pherthnasedd yn ymwybodol o'u cyfraniad at raglen ysgol gyfan.
- Hysbysu staff o'r angen i roi gwybod os nad yw elfennau o'r rhaglen Addysg Rhyw & Pherthnasedd maen nhw'n gyfrifol amdano wedi eu cyflwyno er mwyn gwneud trefniadau eraill.
- Adolygu, a diweddaru adnoddau Addysg Rhyw & Pherthnasedd yn flynyddol a mesur eu heffeithiolrwydd ar gyfer anghenion holl ddisgyblion.
- Cydweithio gydag asiantaethau allanol a chydlynu eu cyfraniad i'r rhaglen Addysg Rhyw & Pherthnasedd.
- Sicrhau bod aelod o staff yn bresennol ac yn rhagweithiol drwy gydol y wers pan fydd asiantaethau allanol yn darparu agweddau o'r rhaglen.
- Cydweithio gyda rheini /gofalwyr.

**5.6 Cysylltiadau rhwng Cyfnodau Allweddol**

Mae'r ysgol yn cysylltu gydag ysgolion cynradd y dalgylch er mwyn sicrhau bod y rhaglen addysgu yn barhaus a dilynol o Gyfnod Allweddol 2 a 3.

**5.7 Rôl Darparwyr Allanol**

Mae'r ysgol yn sylweddoli gwerth cyfraniad asiantaethau allanol priodol a siaradwyr gwadd i lwyddiant rhaglen . Addysg Rhyw & Pherthnasedd. Byddwn yn eu hysbysu o gynnwys polisi'r ysgol a'r canllawiau. **Pan fydd asiantaethau allanol neu unigolion dieithr yn cyflwyno elfennau o raglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd bydd aelod o staff yr ysgol yn bresennol drwy gydol y wers.**

Os bydd asiantaethau allanol angen caniatâd rhieni ar gyfer unrhyw gyflwyniad bydd yr ysgol yn sicrhau cydweithrediad. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ystafell addas a phwrpasol ar gyfer y Nyrs Ysgol a Chwnselydd yr Ysgol.

**5.8 Hysbysebu Gwasanaethau:**

- Hysbysebir ffynonellau cymorth ar gyfer y disgyblion mewn llefydd amlwg o gwmpas yr ysgol.
- Hysbysebir Gwasanaethau Iechyd Rhywiol yn mewn llefydd amlwg o gwmpas yr ysgol.
- Hysbysebir llinell gymorth Childline yn mewn llefydd amlwg o gwmpas yr ysgol.
- Hysbysebir sut i gysylltu â datgelu materion diogelwch y Wê gyda CEOP yn mewn llefydd amlwg o gwmpas yr ysgol.
- **1. Introduction**

Sex and relationships Education (SRE) is a lifelong learning process. It involves receiving information, developing skills and form positive beliefs attitudes and values. SRE is a key component in personal, social, moral and spiritual development of young people

The aim of our school is to plan and deliver a comprehensive SRE programme that meets the needs of all pupils. We aim to create opportunities for pupils to develop skills and gain information appropriate for their age and maturity. Pupils will be taught and supported to maintain their emotional, physical and social health and wellbeing and to safeguard themselves.

The School's Governing Body has agreed that our SRE programme is delivered in Key Stage 3 and 4 teaching programme is planned and delivered in accordance what is noted in:

- Sex and Relationships Education in Schools. Guidance 082/2010 (Welsh Government, 2010)
- Personal and Social Education Framework (Welsh Government, 2008)
- National Curriculum for Wales - Science (Welsh Government, 2008)
- Respecting Others, Anti Bullying Overview. Guidance: 050/2011 (Welsh Government, 2011)
- Safeguarding Children in Education, Welsh Assembly Government
- Safeguarding Children: Working Together Under the Children Act 2004 (March 2007), National Assembly for Wales.
- All Wales Child Protection Procedures (April 2008).
- Equalities Act 2010

**2. Monitoring Process Sex and Relationships Education**

- The teaching and learning standards will be monitored annually.
- A named member of staff is responsible for leading, monitoring and evaluating the provision.
- The school will consult with pupils when updating the policy and the schemes of work.
- This policy links with the schools' ITC Policy regarding internet safety maters .
- The role of the Governing Body will be to monitor and update the policy every 2 years .
- We will discuss the content of our SRE programme and the resources used with parents/carers .
- We will offer parents/carers support in talking about sex and relationships if requested.

**3. Consultation Process:**

We consult with the Governing Body, teachers who deliver SRE, pupils, parents, School Nurse and the Gwynedd Healthy Schools Officers.

The school will provide opportunities for pupils to evaluate SRE lessons in order to express their views on the content of the lessons. The school will consider pupils' opinions when revising the teaching programme.

**4. Delivering whole school Sex and Relationships Education**

The school aims to provide a whole school co-ordinated programme of Sex and Relationships Education lessons taught by trainer members of staff. SRE will be delivered within PSE, Science, Religious Education, History, Drama, ITC and Language lessons as well as cross-curricular and extra-curricular activities. Outside speakers may also be used to enhance the programme.

**4.1 Learning Outcomes Key Stage 3 Health & Wellbeing (PSE Framework 2008)**

*Learners should be given the opportunity to:*

- Display a responsible attitude towards keeping the mind and body safe and healthy

- Develop positive attitudes towards themselves and others

*Understand:*

- The law relating to aspects of sexual behaviour
- Contraception, sexually transmitted infections and HIV within the context of relationships
- The features of safe and potentially abusive relationships
- The role of marriage, the importance of stable family relationships and the responsibilities of parents
- The range of emotions they experience and how to develop strategies for coping with negative feelings
- The benefits of accessing different sources of information, support and advice

**Moral and spiritual development**

*Understand:*

- What they believe to be right and wrong actions and the moral dilemmas involved in life situations
- Their beliefs in the context of those in society

### 4.2 Learning Outcomes Key Stage 4 Health & Wellbeing

*Learners should be given the opportunity to:*

- Accept personal responsibility for keeping the mind and body safe and healthy
- Develop a responsible attitude towards personal relationships
- The short and longer term consequences when making decisions about personal health
- The range of sexual attitudes, relationships and behaviours in society
- The importance of sexual health and the risks involved in sexual activity including potential
- The features of effective parenthood and the effect of loss and change in relationships
- The statutory and voluntary organizations which support health and emotional well-being
- How to access professional health advice and personal support with confidence

**Moral and spiritual development**

*Understand:*

- How beliefs and values affect personal identity and lifestyle
- The factors involved in making moral Judgements
- The range of values and principles by which people live

## 5. Management and Organisation of Sex and Relationships Education

### 5.1 Responding to sensitive matters:

The school will ensure that teacher's beliefs and attitudes will not influence the delivery of SRE. Class agreements/rules will be established in order to set boundaries, appropriate langues used and respect differences. Teachers will attempt to answer questions sensitively, respectful and non-judgmental.

### 5.2 Parents' right to withdraw their children:

Parents have the right to withdraw their children from elements not included in the National Curriculum. If parents wish to withdraw their child from parts or whole of the SRE programme they must notify the school

in writing.

The school believes that Sex and Relationships Education should be a shared responsibility and pupils will be encouraged to discuss content of lessons with parents/carers. The school will provide parents/guardians with information regarding the policy, the programme of study and the resources used if requested. If parents/guardians have any concerns regarding the SRE they are welcome to make arrangements to see the Head teacher or subject leader. These arrangements are specified in the school's website handbook.

**5.3 Safeguarding and Child Protection**

The Schools has ensured that all staff who deliver aspects of SRE are familiar with the Safeguarding and Child Protection procedures. All staff members who become aware of or have concerns of a pupils' welfare or safety know:

- When and how to make a referral to the local authority children's social services.
- What services are available locally and how to gain access to them.
- What sources of further advice and expertise are available.
- Who to contact in what circumstances, and how to follow procedures.

Staff will be given opportunities to pupils' welfare concerns with, and seek advice from colleagues, managers, a designated or named professional, or other agencies.

**5.4 Confidentiality**

If a member of staff or outside visitors who deliver aspects of SRE hears or sees something lessons that suggests a learner is at risk of serious harm or of causing serious harm to others, they must share the information with the designated member of staff who has responsibility for safeguarding and child protection.

All members of staff will ensure all pupils are aware that teachers, and other professionals, cannot offer or guarantee unconditional confidentiality, particularly in relation to personal disclosures.
The school will:

- Encourage learners, where possible, to talk to their parents/carers and give them support to do so.
- Make sure that learners are informed of sources of confidential help, for example the school nurse, school counsellor, GP or young person's sexual health services
- Promote the use of ground rules in lessons to establish boundaries
- Instigate the school's safeguarding and child protection
- Ensure that all teachers/providers discuss confidentiality with pupils at the beginning of the lesson in order to establish boundaries

**5.5 Role of the Sex and Relationships Education Subject Leader**

- Co-ordinate the formulation of the school's SRE policy by involving all relevant
- stakeholders.
- Inform all staff and adults involved with the delivery of SRE within the school, of the contents of the policy and its implications on them as providers.
- Monitor and evaluate the scheme of work in order to ensure that all statutory
- requirements are met.
- Liaise with representatives from relevant Key Stages to ensure appropriate coverage, continuity and progression.
- Monitor and evaluate the policy and scheme of work annually and provide a written

statement for the Governing Body at the end of each academic year.

- Review the policy every two years.
- Assess training needs of school staff involved with the programme and seek to respond to these needs.
- Ensure that all staff who deliver aspects of SRE are aware of their contribution to the whole school programme.
- Staff should inform the subject leader if any aspect of SRE has not been delivered in order to make alternative provision.
- Review and update the resources used in the SRE programme at least annually and evaluate their effectiveness and suitability for all pupils.
- Liase with outside agencies and co-ordinate their involvement within the SRE programme.
- Ensure that a member of staff is present and interacts throughout the lesson when outside agencies are delivering aspects of the programme.
- Work with parents/guardians

**5.6 Primary and Secondary Links**

The school makes appropriate links and liaises with its feeder primary schools in order to ensure continuity and development in the provision from Key Stage 2 to Key Stage 3.

**5.7 Role of External Providers**

The school recognises the value of involving appropriate outside agencies and visiting speakers within the SRE programme. We will inform all outside agencies of the contents of the school policy and the guidelines of its delivery. When outside agencies or individuals are used to deliver parts of the SRE programme a member of staff will always be present throughout the sessions.

If parental consent is needed for any delivery by outside agencies the school will co-operate fully.

The school will ensure there is an appropriate and suitable room for the School Nurse and the School Counsellor.

**5.8 Advertising Supporting Agencies:**

- Advertise various local and national supporting agencies for pupils around the school
- Advertise the local sexual health and contracepive service around the school
- Advertise Childline around the school
- Advertise how to report any internet safety issues with CEOP around the school